LLWYDDO'N LLEOL

YN RHOI HWB I GYFLEOEDD GWAITH POBL IFANC

ENW: Megan Lewis

BRO: Caerfyrddin, Sir Gâr

CAEL SWYDD GYDA CHWMNI LIBERA

Roedd Megan Lewis yn awyddus am her newydd er mwyn camu ymlaen yn ei gyrfa, a diolch i Llwyddo'n Lleol mae wedi cael swydd gyda chwmni Libera.

Asiantaeth ddigidol ydy Libera. Sefydlwyd y cwmni newydd yn 2023 gan Elan Iâl ac Alun Jones. Mae'n canolbwyntio ar greu cynnwys digidol ar gyfer cynhyrchiadau teledu, hysbysebion, ac ymgyrchoedd marchnata, ac hefyd yn gyfrifol am drefnu digwyddiadau fel Social Media Conference Cymru.

BETH FUES TI'N EI WNEUD GYDA LLWYDDO'N LLEOL?

"Cymorth Llwyddo'n Lleol a roddodd gyfle i mi gymryd rhan yn y gwaith o drefnu a pharatoi Social Media Conference Cymru – a chyfleoedd eraill i fynd i gynadleddau eraill gyda thîm Libera."

Cafodd Megan gyfle i ddatblygu ei gyrfa drwy gefnogaeth ariannol drwy elfen Gyrfaol Llwyddo'n Lleol, a oedd yn cynnwys cyfraniad at ei chyflog, offer, a chyfleoedd hyfforddiant - cymorth allweddol i'w datblygiad fel Swyddog Marchnata a Chynnwys.

"Fel cwmni newydd, Cymraeg, mae cefnogaeth Llwyddo'n Lleol wedi galluogi Libera i ehangu a hefyd wedi rhoi cyfle i mi fel unigolyn ifanc o'r ardal gamu ymlaen yn fy ngyrfa."

BETH NESAF?

Erbyn hyn, mae Megan yn gweithio i Libera, ac mae'r cwmni yn ehangu. Mae Megan yn gobeithio parhau i ddatblygu yn ei gyrfa yn y byd digidol, gyda'r cyfle i weithio gartref yn Caerfyrddin.

"Drwy fy mod i'n dod yn wreiddiol o'r dref ac ar ôl mwynhau gweithio i S4C yma, dw i'n hynod o falch o'r cyfle hwn i weithio gartref."

Cadwch lygad mas am y datblygiadau diweddaraf gan gwmni Libera!

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government